OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3072 (Cy.294)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *26 Tachwedd 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Tachwedd 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 74(2) a (3) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2003 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2003.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "y Cynghorau Cyfansoddol" ("*the Constituent Councils*") yw Cyngor Sir Abertawe, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003(**2**);

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cyrff Ardolli (Cyffredinol) 1992(**3**);

ystyr "y Pwyllgor" ("*the Committee*") yw Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966(**4**); ac

ystyr "Rhondda Cynon Taf" ("*Rhondda Cynon Taf*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

(**1**) 1988 p.41. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladaol o dan adrannau 74 a 143 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosgwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**2**) O.S. 2003/3036 (Cy. 284).
(**3**) O.S. 1992/2903.
(**4**) 1996 p.38.

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r Pwyllgor, i'r Cynghorau Cyfansoddol ac i Rhondda Cynon Taf am y flwyddyn ariannol yn cychwyn ar 1 Ebrill 2003.

**Ardollau a amnewidiwyd**

**4.**—(1) Er gwaethaf rheoliad 8 o'r Prif Reoliadau, awdurdodir y Pwyllgor gan y Rheoliadau hyn i gyflwyno:

(a) ardollau wedi'u hamnewid (yr ardollau newydd) i'r Cynghorau Cyfansoddol i gymryd lle'r ardollau hynny a gyflwynwyd ganddo ar 11 Chwefror 2003 (yr hen ardollau); a

(b) ardoll wedi'i hamnewid am ddim punnoedd i Rhondda Cynon Taf i gymryd lle'r ardoll a gyflwynwyd ar 11 Chwefror 2003;

erbyn 14 Chwefror 2004 fan bellaf i alluogi'r Pwyllgor, y Cynghorau Cyfansoddol a Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â'r Gorchymyn.

(2) Os bydd y Pwyllgor yn cyflwyno ardollau newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn, rhaid i unrhyw symiau a dalwyd iddo mewn perthynas â'r hen ardollau gael eu trin fel petaent wedi'u talu mewn perthynas â'r ardollau newydd.

**5.** Dirymir Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2001(**5**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

26 Tachwedd 2003

(**5**) 2001/3811 (Cy.316).
(**6**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wneud Rheoliadau mewn perthynas â chyrff ardolli sydd yn cynnwys y Pwyllgor ar gyfer Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 74 a 143 o Ddeddf 1988.

Mae Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003 (O.S. Rhif 2003/3036 (Cy.284)) (y Gorchymyn) yn tynnu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o'r Pwyllgor hwnnw gydag effaith o 31 Mawrth 2003. Mae'r Pwyllgor eisioes wedi cyflwyno ardollau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-2004.

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gyflwyno ardollau a amnewidiwyd i'w Gynghorau Cyfansoddol ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am y flwyddyn ariannol honno. Fe fydd yr ardollau newydd hyn yn cymeryd lle'r rhai a gyflwynwyd yn gynharach. Yn achos Rhondda Cynon Taf, fe fydd yr ardoll a amnewidiwyd yn ddim tra bydd y ffigurau ar gyfer y cynghorau eraill yn cael eu haddasu'n unol â'r Gorchymyn.